# Hysbysiadau mewn perthynas â diogelu

Mae Rheoliad 31 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 yn nodi:

> "Rhaid i Berson Cofrestredig hysbysu'r swyddfa briodol os digwydd unrhyw un o'r digwyddiadau a bennir yn Atodlen 4, a rhaid iddo, yr un pryd, ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a bennir yn yr Atodlen honno mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw."

Mae'r gofynion hysbysu sy'n ymwneud â diogelu o dan Atodlen 4 (paragraffau 8, 9 a 10) wedi'u nodi isod, ynghyd ag enghreifftiau o'r hyn y dylid rhoi gwybod amdano i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o dan bob paragraff.

**Nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr ac nid ydynt yn cwmpasu pob senario posibl. Y Person Cofrestredig sy'n gyfrifol am benderfynu a oes angen gwneud hysbysiad.** Os nad ydych yn siŵr a ddylech hysbysu AGC, cysylltwch â ni ar 0300 790 0126 neu defnyddiwch ein ffurflen ymholiadau.

### Paragraff 8: Unrhyw honiadau o niwed difrifol a wnaed i blentyn, gan unrhyw berson sy'n gofalu am blant perthnasol yn y fangre, neu gan unrhyw berson sy'n byw neu'n gweithio, neu a gyflogir, yn y fangre, neu unrhyw gamdriniaeth yr honnir iddi ddigwydd yn y fangre.

Enghreifftiau:

- Honiadau o niwed neu gamdriniaeth a wnaed yn erbyn aelod o staff sy'n gofalu am blant yn y lleoliad (gan eich cynnwys chi eich hun os mai chi yw'r Person Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol neu'r gwarchodwr plant).
- Honiadau o niwed neu gamdriniaeth a wnaed yn erbyn unrhyw berson arall sy'n byw neu'n gweithio, neu a gyflogir, yn y lleoliad e.e. cogydd, glanhawr, staff gweinyddol, aelod o'r cartref (ar gyfer gwarchodwyr plant).

### Paragraff 9: Unrhyw ddigwyddiad arall a allai effeithio ar addasrwydd y Person Cofrestredig i ofalu am blant, neu addasrwydd unrhyw berson sy'n byw neu'n gweithio neu a gyflogir yn y fangre, i fod mewn cysylltiad rheolaidd â phlant.

Enghreifftiau:

- Cael ei arestio neu ei gyhuddo o unrhyw drosedd neu gael rhybudd neu gollfarn e.e. yfed a gyrru.

- Plant yr unigolyn, neu blant y mae'n eu maethu, yn cael eu tynnu/rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, neu'n dod yn destun unrhyw fath o ymchwiliad amddiffyn plant gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- Honiadau o niwed neu gamdriniaeth a wnaed yn erbyn unrhyw berson arall sy'n byw neu'n gweithio, neu a gyflogir, yn y lleoliad e.e. cogydd, glanhawr, staff gweinyddol, aelod o'r cartref (ar gyfer gwarchodwyr plant) yr honnir iddynt fod wedi digwydd y tu allan i'r lleoliad gofal plant.

### Paragraff 10: Unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol arall sy'n debygol o effeithio ar les unrhyw blentyn yn y fangre.

Enghreifftiau:

- Marc heb esboniad ar blentyn y sylwir arno gan aelod o staff yn y lleoliad.
- Datgeliad a wneir gan blentyn yn y lleoliad am rywun nad yw'n gweithio nac yn byw yn y lleoliad (e.e. aelod o'r teulu).
- Plentyn yn llwyddo i adael y lleoliad neu blentyn a fu ar goll am gyfnod o amser.
- Person heb awdurdod yn llwyddo i fynd i mewn i'r safle.